# Deufis

**Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi** Mai-Mehefin 2026

## OEDFAON MIS MAI

**Am wybodaeth ddiweddaraf am oedfaon Brynhafod, gweler y dudalen What’s app**

**Sul 3 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog—Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Caersalem | 2.00 y pnawn | Gweinidog—Cymun |
| Noddfa | 5.00 yr hwyr | Gweinidog—Cymun |

**Sul 10 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Oedfa Cymorth Cristnogol |
| Seion a Brynhafod (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog– Cymun |

**Sul 17 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 11.00 y bore | Gweinidog |

***CYMANFA GANU CYLCH CAIO A LLANBEDR P.S.***
***4.00 y pnawn yn Noddfa***

**Sul 24 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | |

***Soar-y-Mynydd 2.00 y pnawn Gweinidog yn pregethu***
***Croeso i aelodau eglwysi’r Cylch ymuno***

**Sul 31 Mai**

Oedfa’r Cylch yn Seion 10.30
Gweinidog yn pregethu

## Oedfaon Mis Mehefin

**Sul 7 Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Caersalem | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |
| Noddfa | 5.00 yr hwyr | Gweinidog-Cymun |

**Sul 14 Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |

**Sul 21 Mehefin**

**Sul arbennig yng nghwmni Arfon Jones, Beibl.net**






***Noddfa, Caersalem***
***A Bethel***
***(yn Noddfa) 10.00 y bore***
***Aberduar, Seion a Brynhafod***
***(ym Mrynhafod)***
***2.00 y pnawn***

**TRIP YR OFALAETH—SUL 28 MEHEFIN**

# Blaenannerch ac Aberteifi

**Gadael Llambed 10 y bore**
**Oedfa yng nghapel Blaenannerch, ymweliad â Chastell Aberteifi yng nghwmni'r Cynghorydd Clive Davies**
**Pryd bwyd ym Mragdy'r Bryn, Brynhoffnant, ar y ffordd yn ôl: enwau i mewn erbyn Sul 14 Mehefin i Mair neu Delyth.**




**Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch**
**Caio a Llambed**



**Cynhelir y Gymanfa eleni yn Noddfa ar Sul 17 Mai am 4 o'r gloch.**

**Edrychwn ymlaen yn eiddgar i groesawu**
**RHIANNON LEWIS**
**i'n harwain. Cenir emynau allan o Ganeuon Ffydd.**

**Mae nifer y rhai sy'n mynychu wedi lleihau yn ddirfawr yn ddiweddar felly beth am sicrhau dyfodol y Gymanfa trwy ddod ynghyd i Noddfa i glodfori Duw ar gân.**

**CYMANFA BEDYDDWYR CAERFYRDDIN**
**A CHEREDIGION**

# CYFARFODYDD BLYNYDDOL

**DYDD MERCHER 20 MAI**
**EBENESER, LLANDEILO**

12.00 Oedfa bregethu: Y Parch Heini Jones
3.00 Oedfa genhadol: Y Barch Danni Worley, Dolgellau
6.00 Oedfa'r Llywydd: Mrs Dawn Richards, Cwm-du

**YSGRIFENNYDD NEWYDD YR UNDEB**



**Pleser yw cael cyhoeddi mai Ysgrifennydd newydd Undeb Bedyddwyr Cymru yw'r Parchg Simeon Baker. Yn frodor o Drefach Felindre a addysgwyd yn Ysgol Uwchradd Llandysul a Phrifysgol Llundain, bu'n weinidog yn Llundain ac yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd, cyn ymuno â staff yr Undeb fel Cyfarwyddwr Cenhadol yn 2012. Cychwynnodd ar ei waith newydd ar 1 Ebrill, ac fel y daethom i adnabod ei ragflaenydd, y Parchg Judith Morris, yn dda, rwy'n siŵr y cawn gystal gyfle i werthfawrogi gweinidogaeth a gweledigaeth Simeon dros y blynyddoedd nesaf.**

Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion



**MUDIAD Y CHWIORYDD**

Noswaith yng nghwmni

# RHIAN MORGAN

Festri Tabernacl, Caerfyrddin.

11 Mehefin
7 yr hwyr

Lluniaeth ysgafn i ddilyn